

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021-2022

TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU

Tabl o'r Cynnwys

Tudalen Adrannau	Tudalen
Rhagair gan Lywydd y Tribiwnlys – Carol Cobert	3
Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr – Andrew Shipsides	4
1. COVID: Blwyddyn 2	5
2. Llwyth gwaith, apeliadau pellach a chwynion	7
3. Aelodaeth a hyfforddiant	9
4. Cyngor Llywodraethu	10
5. Staffio	11
6. Ystadau a chyfleusterau	12
7. Cyllid	13
Datganiadau wedi'u llofnodi gan y Prif Swyddog Gweithredol (angenrheidiol dan Ddogfen Fframwaith TPC – Llywodraeth Cymru)	
Datganiad Llywodraethu	16
Datganiad Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifeg	17

Atodiadau

A	Niferoedd cyfarfodydd y tribiwnlys ac achosion wedi'u rhestru	19
B	Llwyth gwaith – ffigurau cymharol y pum mlynedd diwethaf	20
C	Data Clirio Apêl 2021/2022	21
D	Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) – tabl canlyniadau	22
E	Diffiniadau KPI ar gyfer 2022/23	23
F	Dadansoddiad oedran a rhywedd yr aelodaeth (ar 31 Mawrth 2022)	24
G	Gwariant Tribiwnlys Prisio Cymru 2021/2022	25
H	Cyfanswm y gwariant – ffigurau cymharol y naw mlynedd diwethaf	26
I	Strwythur y Sefydliad	27

Rhagair gan Lywydd Tribiwnlys Prisio Cymru

Yn dilyn y tarfu yn ystod y pandemig mae'r Tribiwnlys yn parhau i ddefnyddio ymddangosiadau fideo gan yr apelydd a hefyd gan gyrff cyhoeddus (awdurdodau lleol a'r Asiantaeth Brisio). Mae'r apelwyr ar y cyfan wedi derbyn y dull hwn ac yr wyf yn ddiolchgar i aelodau'r Tribiwnlys sydd hefyd wedi derbyn yr arfer hwn, er bod rhai tribiwnlysoedd yn cael eu cynnal yn bersonol mewn ffordd hybrid gyda rhai ar fideo ac eraill yn y cnawd.

Yr ydym wedi gweld nifer o'n haelodau a'n cadeiryddion yn cwblhau eu gwasanaeth penodedig i'r Tribiwnlys, a llawer ohonynt gyda phrofiad mawr yn y maes. Yr wyf yn ddiolchgar am y gwasanaeth maen nhw wedi ei roi, rhai dros nifer o flynyddoedd. Mae aelodau newydd wedi cael eu recriwtio a bydd angen llawer mwy dros y flwyddyn neu ddwy nesaf. Yr ydym wedi'i chael hi'n anodd recriwtio aelodau newydd achos y mae'n rôl ddi-dâl felly mi fydd hi'n her i ni sicrhau dros y blynyddoedd nesaf bod gennym ddigon o aelodau i gynnal ein busnes.

Tarfwyd ar hyfforddiant blynyddol ar gyfer yr aelodaeth oherwydd y pandemig ond roedd yn beth da ein bod wedi llwyddo i gynnal digwyddiad hyfforddi wyneb yn wyneb ar gyfer cadeiryddion, gyda nifer fechan yn ymuno trwy fideo. Cyflwynwyd y modiwlau hyfforddi fideo a gynhyrchwyd gan aelodau o staff, yn gynnar yn y flwyddyn. Mae'r aelodaeth yn gallu manteisio ar y fideos hyn i'w diweddarau nhw. Bydd hyfforddiant blynyddol yr aelodau a'r cadeiryddion yn dechrau gyda digwyddiadau hyfforddi wyneb yn wyneb yn y dyfodol.

Yr wyf yn falch bod y Tribiwnlys wedi parhau i weithredu drwy aflonyddwch y pandemig yn enwedig wrth ddelio â'r clirio llwyth gwaith a rheoli cyllid y Tribiwnlys sydd wedi parhau i gael ei reoli'n effeithlon.

Yr wyf am ddiolch i aelodau o'r Cyngor Llywodraethol am eu sgiliau rheoli yn enwedig Rheinallt Evans sydd wedi gwasanaethu'r Cyngor ers ei sefydlu a byddem yn gweld colled ei brofiad. Ar ôl etholiad mae Mr David O Evans wedi cymryd lle Rheinallt Evans ar y Cyngor Llywodraethol, ac mae ganddo flynyddoedd lawer o brofiad gyda'r Tribiwnlys a hefyd gyda sefydliadau eraill. Diolch hefyd i holl aelodau'r tribiwnlys a staff sydd wedi cyfrannu ar y cyd tuag at ddarparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol gan TPC mewn cyfnod anodd wrth iddo wella o'r pandemig.

Diolch hefyd i'r Prif Weithredwr a'i dîm rheoli am eu rheolaeth effeithlon o'r gwasanaeth. Mae'r Prif Weithredwr wedi gwasanaethu'r Tribiwnlys yn eithriadol o dda ac oherwydd ei ymddeoliad sydd ar fin digwydd bydd y Cyngor Llywodraethol yn recriwtio person profiadol i barhau i ddatblygu'r Tribiwnlys wrth iddo wasanaethu'r cyhoedd.

Gyda fy niolch i bawb sy'n ymwneud â'r gwasanaeth.

Carol Cobert

Llywydd - Tribiwnlys Prisio Cymru

Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr

Mae'r adroddiad eleni yn dechrau drwy edrych ar y ffordd y mae'r Tribiwnlys wedi newid wrth gyflwyno ei wasanaeth craidd (gwrandawiadau apeliadau trethi lleol) o ganlyniad i newidiadau a wnaed mewn ymateb i bandemig COVID-19 yn ystod 2020-21 (Blwyddyn 1 COVID). Mae'r flwyddyn weithredol hon (Blwyddyn 2 COVID) wedi gweld y gweithdrefnau a ddyfeisiwyd yn 2020-21 yn gwreiddio o ddifrif – yn bennaf y defnydd parhaus o wrandawiadau drwy fideo.

Mae'r rhan fwyaf o aelodau'r cyhoedd wedi bod yn barod iawn i dderbyn y ffordd hon o gael clywed eu hachosion. Bellach mae'n well gan y cyrff cyhoeddus, y mae eu penderfyniadau'n cael eu hapelio yn eu herbryn, (hynny yw y 22 awdurdod bilio Cymreig ac Asiantaeth Swyddfa Brisio'r DU) i'r materion yr ymdrinnir â nhw gael eu trin fel hyn, gan ei fod yn arbed y gost (o ran amser ac arian) a oedd yn arfer codi pan fu'n rhaid i'w swyddogion deithio i leoliad gwrandawiad.

Er hynny, mae'n dal yn well gan ambell i apelydd gael bod yn bresennol yn y cnawd yn y gwrandawiad, ac mae'r Tribiwnlys yn ymwybodol o'i gyfrifoldeb i'r defnyddwyr gwasanaeth hyn. O ganlyniad yn hanner olaf eleni mae'r Tribiwnlys wedi dechrau ailgyflwyno rhai gwrandawiadau rhanbarthol. Er bod y rhain i ffwrdd o ganolfan gwrandawiad y Tribiwnlys yng Nghasnewydd, rydym yn gallu cyflwyno'r digwyddiadau hyn fel gwrandawiadau hybrid - hynny yw, gall presenoldeb fod drwy gyswllt fideo neu drwy ymddangosiad yn y cnawd fel sy'n gweddu i'r partïon. Mae clerod ein tribiwnlys yn defnyddio offer fideogynadleda cludadwy y gellir ei sefydlu'n gyflym mewn lleoliadau allanol sydd â chysylltiad band eang da a sgrin fawr neu daflunydd ar gael. Mae'r cyfleusterau gwaelodlin hyn ar gael fwyfwy wrth i fwy o leoliadau ddychwelyd i gynnig llogi ystafelloedd. Mae cysylltiad fideo yn y lleoliadau hyn hefyd yn caniatáu inni gynnwys aelodau pellennig o'r tribiwnlys, fel nad oes rhaid i'r tri aelod panel fod yn bresennol yn gorfforol. Mae hyn yn arwain at ledaeniad mwy fyth o lwyth gwaith y gwrandawiad ar draws aelodaeth gyfan y Tribiwnlys, ac mae hefyd yn helpu i leihau costau teithio'r Tribiwnlys ei hun.

Mae gweddill yr adroddiad yn dangos bod y Tribiwnlys wedi adfer ei hun yn dda yn dilyn y tarfu a achoswyd gan y pandemig COVID. Mae clirio llwyth gwaith wedi bod yn dda (gweler Adran 2), ac mae rheolaeth y Tribiwnlys o'i adnoddau ariannol wedi bod yn eithriadol (Adran 7). Er hynny mae ar fin wynebu argyfwng aelodaeth. Mae'r Tribiwnlys yn dechrau colli rhai aelodau profiadol iawn (o ganlyniad i derfyn hyd gwasanaeth a gyflwynwyd yn rheoliadau statudol llywodraethol y Tribiwnlys yn 2017), ac mae recriwtio gwirfoddolwyr newydd, di-dâl (sef yr hyn yw aelodau TPC) yn profi'n anodd. Mae adran 3 yn rhoi'r manylion.

Andrew Shipsides
Prif Weithredwr – Tribiwnlys Prisio Cymru

1 COVID: Blwyddyn 2

- 1.1** Dechreuodd y flwyddyn riportio hon gyda chyfyngiadau sylweddol a chanllawiau gan y Llywodraeth yn dal ar waith at ddibenion iechyd cyhoeddus. Parhaodd trefniadau'r gwrandawriad a fabwysiadwyd ym Mlwyddyn 1 COVID tan fis Medi. Yn unol â'r trefniadau hyn cafodd pob gwrandawriad eu cynnal yn ffurfiol yn ein hystafell gwrandawriadau yng Nghasnewydd. Byddai un neu ddau o aelodau'r panel yn mynychu'r lleoliad ynghyd â chlerc sy'n cynnig cyngor, tra byddai gweddill aelodau'r panel (neu aelod) yn cymryd rhan drwy fideogynadledda (Zoom fel arfer - er bod Microsoft Teams yn cael ei ddefnyddio o bryd i'w gilydd ar gais penodol parti). Mynychodd pob parti'r gwrandawriad o bell drwy feddalwedd fideo. Fel yr eglurwyd yn adroddiad y llynedd, roedd y trefniant hwn yn caniatáu inni ddefnyddio ein haelodaeth ledled Cymru yn ogystal â'r rhai sy'n agosach at Gasnewydd. Roedd rheoliadau'r Tribiwnlys yn rhagddweud y byddai gwrandawriadau'n digwydd (ac yn cael eu hysbysebu fel rhai sy'n digwydd) mewn lleoliad daearyddol, a dyma pam yr oedd o leiaf un aelod yn eistedd yng Nghasnewydd. Nid oedd yn bosibl o dan y rheoliadau hyn i gynnal gwrandawriadau o bell yn unig gyda'r holl gyfranogwyr yn defnyddio technoleg fideo yn eu lleoliad eu hunain. Roedd y Tribiwnlys wedi gofyn am newid i eiriad ei reoliadau yn ystod Blwyddyn 1 COVID er mwyn galluogi gwrandawriadau o bell yn gyfan gwbl drwy fideo, ond roedd maint y ddeddfwriaeth a oedd angen ei ddrafftio yn fwy brys gan gyfreithwyr Llywodraeth Cymru yn atal hynny. Roedd y Tribiwnlys yn gallu cynnal digon o wrandawriadau ar sail hybrid, ac felly parhaodd hyn yn ei le.
- 1.2** Yn ystod yr haf, wrth i gyfyngiadau a chanllawiau COVID y Llywodraeth gael eu codi'n raddol ledled y wlad, cysylltodd y Tribiwnlys â darparwyr lleoliadau yng ngorllewin a gogledd y wlad gyda'r bwriad o sicrhau safleoedd ar gyfer gwrandawriadau mewn mannau eraill. Byddai hyn yn rhoi cyfleoedd i apelwyr sydd wedi eu lleoli i ffwrdd o Gasnewydd, a oedd yn dymuno cyflwyno eu hachosion yn y cnawd, i fynychu yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Ar yr un pryd, prynodd y Tribiwnlys dechnoleg fideogynadledda cludadwy, a oedd yn caniatáu i glercod sefydlu gwrandawriadau hybrid mewn lleoliadau allanol. Roedd yr ymatebwyr mewn gwrandawriadau tribiwnlys (Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac awdurdodau bilio Cymru) bellach wedi mabwysiadu technoleg gwrandawriadau o bell yn llawn ac yn dymuno parhau â'i ddefnydd, gan ei fod yn arbed cost ac amser staff i'r sefydliadau hynny, yn ogystal â sicrhau amddiffyniad parhaus i staff rhag haint COVID posib. Cyn belled â bod lleoliad y gwrandawriad allanol yn gallu darparu sgrin fideo neu daflunydd fideo mawr, ynghyd â chysylltiad band eang di-wifr, yr oedd y Tribiwnlys yn gallu sefydlu gwrandawriad hybrid yn y lleoliad. Dechreuodd y gwrandawriadau hybrid allanol hyn ym mis Medi yng Nghaerfyrddin a Bangor - ac yn ddiweddarach yn y flwyddyn ychwanegwyd lleoliadau yn Llanelwly a'r Drenewydd.
- 1.3** Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y ffordd hon o weithio wedi'i gwreiddio'n llawn i weithrediadau'r Tribiwnlys. Mae bellach wedi dod yn ffordd ddiodyn y Tribiwnlys o weithio. Bydd gwrandawriadau llafar llawn, gyda phawb sy'n cymryd rhan yn yr un lleoliad corfforol, yn beth prin yn y dyfodol - dim ond yn debygol o ddigwydd os oes amgylchiadau arferol yn gwarantu'r trefniant hwn. Mae gwrandawriadau o bell cyflawn gyda'r holl gyfranogwyr sy'n mynychu drwy gyswllt fideo yn fwy tebygol. Er nad yw'r gwelliant i'r rheoliadau, a fyddai'n

galluogi hyn, wedi'i wneud eto, bydd yn cael ei wneud yn y dyfodol i hwyluso hyblygrwydd cynyddol yn y ffordd y mae'r Tribiwnlys yn darparu ei wasanaeth.

2 Llwyth gwaith, apeliadau pellach a chwynion

Llwyth gwaith

- 2.1 Rhestrodd y tribiwnlys 3,108 o achosion ardrethu eleni; 1095 o achosion prisio treth cyngor; a 128 math arall o apêl (materion atebolrwydd treth cyngor yn bennaf, gan gynnwys apeliadau gostyngiadau'r Dreth Gyngor). Adferodd hyn y gwaith rhestru bron at lefelau normal yn dilyn gostyngiad o dros draean yn ystod Blwyddyn 1 COVID¹. Rhoddir manylion cyfarfodydd tribiwnlys ac achosion a restrir yn Atodiad A.
- 2.2 Cafodd 4,715 o apeliadau ardrethu eu clirio, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod nifer o bartïon wedi llwyddo i ddatrys materion heb ymyrraeth y tribiwnlys. Cafodd 1,339 o apeliadau prisio treth gyngor eu clirio, sydd eto'n dangos bod nifer (cymedrol) o achosion wedi'u datrys heb i'r Tribiwnlys orfod eu rhestru. Datryswyd 129 o fathau eraill o apêl; mae hyn yn dangos bod bron pob un o'r mathau hyn o achos yn gofyn am benderfyniad gan y Tribiwnlys.
- 2.3 O'i gymharu â Blwyddyn 1 COVID cynyddodd nifer y penderfyniadau (penderfyniadau'r tribiwnlys) a wnaed gan y Tribiwnlys 145% o ran achosion ardrethu, ychydig dros 200% o ran apeliadau prisio'r dreth gyngor, a 59% o ran mathau eraill o apêl. Mae hyn yn dangos bod y Tribiwnlys wedi "ail-gydio yn y gwaith" yn dilyn 12 mis cychwynnol y pandemig COVID, yn hytrach na bod bartïon yn fwy cyfreithgar. Cyflwynir ffigurau manwl ar lwyth gwaith yn Atodiad B ac Atodiad C. Mae Atodiad B yn cyflwyno ffigurau cymharol yn erbyn y pedair blynedd flaenorol, ac mae Atodiad C yn darparu dadansoddiad manwl o ganlyniadau eleni.
- 2.4 Fel y dangosir yn Atodiad B ac Atodiad C dechreuodd y Tribiwnlys y flwyddyn gyda nifer eithriadol o uchel o apeliadau ardrethu cofrestredig (bron i 24,000). Mae'r ffigwr hwn gryn dipyn yn fwy na dwbl y niferoedd ar ddechrau blynyddoedd blaenorol. Fe'i hachoswyd gan tua 16,500 o achosion yn cael eu cofrestru yn 2020-21 ar sail newid materol mewn amgylchiadau, oherwydd fod pandemig COVID, cyfnodau clo a chyfyngiadau eraill wedi cael effaith andwyol ar ardal fasnachu adeiladau busnes ac o ganlyniad gwerth ardrethol yr eiddo hynny. Ym mis Rhagfyr, pasiodd senedd y DU'r Ddeddf Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau Wedi'u Diddymu) 2021, gan gwmpasu Cymru a Lloegr, a wnaeth ddarpariaeth i ddiystyru bron pob effaith ar asesiadau ardrethu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r coronafeirws. Mewn ymateb i'r deddfiad hwn ysgrifennodd Asiantaeth y Swyddfa Brisio at apelyddion a oedd ag achosion oedd yn gysylltiedig â choronafeirws a gyflwynwyd i TPC, gan ofyn iddynt dynnu'n ôl.

¹ Roedd eleni yn flwyddyn ailbriso ardrethu. Mae lefelau apeliadau ardrethu yn is mewn blynyddoedd ailbriso nag mewn blynyddoedd lle nad oes ailbriso (tua hanner). Rydym yn cymhwyso ein hamser a'n hadnoddau i'r cyfryngau a sianelau cyfathrebu a fydd yn rhoi'r effaith fwyaf i ni ac yn dod â'r budd gweithredol mwyaf. Mae TPC yn cytuno i restru yn unol â'r lefelau yma a gytunwyd arnynt. Roedd rhestru "mathau eraill o apêl" (nad ydynt yn gysylltiedig â lefelau Llywodraeth Cymru - Asiantaeth y Swyddfa Brisio) ychydig yn uwch na'r blynyddoedd blaenorol.

Cafodd rhai o'r achosion eu tynnu yn ôl tua diwedd chwarter olaf eleni, ac maent yn rhan o'r ffigwr o achosion ardrethu a gwblhawyd ym mharagraff 2.2 uchod. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif helaeth o'r achosion ardrethu hyn yn parhau i fod heb eu cwblhau ar ddiwedd y flwyddyn. Mae rhagor o achosion yn debygol o gael eu tynnu'n ôl yn y flwyddyn weithredol nesaf, ond mae'r Tribiwnlys yn gwybod y bydd rhai yn aros gan fod cwpl o apelwyr wedi cysylltu â'r Tribiwnlys yn dymuno cynnal achosion prawf, oherwydd eu bod yn credu nad yw'r seiliau sy'n gysylltiedig â COVID yn eu hapeliadau yn dod o dan y ddeddf a basiwyd ym mis Rhagfyr. Rhestrwyd achosion prawf gan Dribiwnlys Prisio Lloegr (VTE) ar gyfer gwrandawriad ym mis Mai 2022. Yn unol â hyn mae TPC yn aros am ganlyniad yr achosion hynny. Os yw'r VTE yn canfod yn erbyn yr apelyddion, mae posibilrwydd y gellir gwneud apeliadau ymlaen i'r llysoedd uwch; ac felly mae'n bosib y bydd yr achosion hynny sy'n gysylltiedig â COVID sydd wedi cael eu cyflwyno ar hyn o bryd gyda TPC yn parhau i gael eu hoedi am beth amser. Bydd adroddiad y flwyddyn nesaf yn ymdrin ag unrhyw ddatblygiadau yn y maes hwn. Gallai fod yn wir y bydd y nifer fawr o apeliadau sy'n gysylltiedig â COVID heb eu datrys yn parhau i fod heb benderfyniad am rai misoedd i ddod. Cyfanswm yr achosion ardrethu heb benderfyniad ar ddiwedd y flwyddyn oedd 22,710. Mae tua 15,000 o'r achosion hyn yn faterion sy'n ymwneud â COVID.

- 2.5** Cyflawnodd y Tribiwnlys saith o'i naw Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPI) sy'n gysylltiedig â llwyth gwaith eleni. Roedd y ddau darged a fethwyd yn ymwneud â phrydlondeb rhestru. Rhestrwyd ychydig o dan 70% o apeliadau ardrethu cofrestredig o fewn wyth wythnos i ddyddiad targed rhaglennu Asiantaeth y Swyddfa Brisio (gosodwyd y KPI yn 95%); a chafodd bron i 77% o apeliadau treth y cyngor eu cwblhau o fewn 12 mis i'w derbyn gan y Tribiwnlys (gosodwyd y KPI yn 95%). Mae'r ffigurau perfformiad is i'w priodoli'n uniongyrchol i'r arhosiad pum mis mewn rhestrau yn 2020-21 a achoswyd gan bandemig COVID, yn ogystal â'r lefel is mewn rhestrau yn hanner olaf y flwyddyn honno. Mae'r ffigurau hyn wedi achosi ôl-groniad, lle mae angen i apeliadau aros yn hirach i'w rhestru nag sy'n digwydd fel arfer. Mae'r Tribiwnlys yn y broses o ddal i fyny; a bydd materion (os na chaiff eu datrys yn llwyr) yn agosach at yr hyn sy'n arferol erbyn diwedd y flwyddyn nesaf. Dangosir y tabl llawn o ganlyniadau KPI yn Atodiad D ac mae'r diffiniadau ar gyfer 2022-23 yn Atodiad E. Mae'r Tribiwnlys wedi penderfynu cadw'r targedau rhestru ar 95% fel bod modd mesur y cynnydd yn ôl i'r ffigwr perfformiad hwnnw.

Apeliadau pellach

- 2.6** Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd tair apêl yn erbyn penderfyniadau TPC gyda'r Uwch Dribiwnlys (achosion ardrethu) ac ni chyflwynwyd unrhyw apeliadau i'r Uchel Lys (achosion treth cyngor).

Cwynion

- 2.7** Ni chafwyd unrhyw gwynion yn erbyn y Tribiwnlys gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru eleni.

3 Aelodaeth a hyfforddiant

Aelodaeth

- 3.1** Gostyngodd yr aelodaeth o 80 i 71 yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i ymadael naturiol. Roedd y nifer hwn yn ddigon i gyflawni llwyth gwaith y Tribiwnlys eleni, ac mae Cyngor Llywodraethol y Tribiwnlys yn rhagweld y bydd yn parhau i fod yn ddigonol ar gyfer llwyth gwaith yn ystod 2022/23. Fodd bynnag, mae'r Tribiwnlys yn wynebu risg real iawn y bydd y niferoedd yn gostwng yn is na 70 yn y blynyddoedd nesaf - a barn y Tribiwnlys yw mai 70 yw'r nifer gweithredol mwyaf effeithiol am y tair blynedd nesaf. Denodd yr ymgyrch recriwtio a redodd ym mhym mis olaf 2021-22 naw ymholiad, gan ofyn am ffurflenni cais; fodd bynnag, dim ond dau gais a dderbyniwyd. Cafodd yr ymgeiswyr hynny eu penodi wedyn. Defnyddiodd yr ymgyrch ddulliau rhannu gwybodaeth ar lafar gan yr aelodaeth bresennol, hysbysebion yng nghylchgrawn Cymraeg *Golwg* a'i wefan gysylltiedig, a hysbysebion ar wefannau holl Gymdeithasau Cyrff Gwirfoddol Cymru. Gofynnodd y Tribiwnlys am help gan dîm Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, ond roedd y dull gweithredu'n rhwystredig gan fod y tîm yn gweithredu proses sy'n arwain at gymeradwyo penodiadau gan Weinidogion, tra bo apwyntiadau TPC yn cael eu gwneud gan y Tribiwnlys ei hun. Yn syml, byddai'r Tribiwnlys wedi hoffi defnyddio tudalen we'r Penodiadau Cyhoeddus fel modd o hysbysebu'r swyddi. Mae wedi gwneud hynny yn y gorffennol, pan aed ati i recriwtio'r niferoedd sylweddol diwethaf (yn 2014-15), ac fe ddenodd yr hysbyseb rai aelodau galluog iawn. Ond mae proses penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru wedi newid ers hynny; ac felly eleni nid oeddem yn gallu defnyddio'r ffordd honno i ymestyn at ymgeiswyr posib. Rydym wedi gofyn i'n Tîm Noddi yn Llywodraeth Cymru i ymchwilio i drefnu rhyw fath o drefniant gydag Apwyntiadau Cyhoeddus fel y gall TPC gyflwyno'r cyfleoedd i fod yn aelod drwy'r cyfrwng hwnnw i gynulleidfa a allai fod â diddordeb.
- 3.2** Wrth edrych i'r dyfodol erbyn diwedd 2022-23 bydd tri ar ddeg o aelodau wedi cyrraedd diwedd eu tymor olaf eu penodiad.² Mae hon yn gyfran sylweddol iawn o'r aelodaeth bresennol, ac yn y broses hon bydd y tribiwnlys yn colli aelodau sy'n dymuno parhau ac sy'n brofiadol iawn o ran gwrandawiadau ardrethu ac apeliadau'r dreth gyngor. Os nad yw'r Tribiwnlys yn gallu penodi digon o amnewidiadau addas, bydd effeithiolrwydd gweithredol TPC yn cael ei beryglu.
- 3.3** Mae oedran a phroffil rhywedd yr aelodaeth wedi aros yn debyg iawn i'r llynedd. Mae hyn i'w ddisgwyl, o gofio nad yw'r Tribiwnlys wedi llwyddo i ddenu nifer sylweddol o aelodau newydd eto. Mae'r gymhareb Wrywaidd i Fenywaidd yn parhau i fod yn 3:1. Gweler Atodiad F am fanylion y proffil presennol. Mae 28%

² Cyflwynodd newid i reoliadau statudol llywodraethol TPC yn 2017 gyfyngiad ar hyd gwasanaeth yr aelodaeth. Mae hyn yn unigryw o'i gymharu â thribiwnlysoedd eraill, lle mai terfyn oedran yw'r ffactor penderfynol. Ym mron pob tribiwnlys ac yn y farnwriaeth yn gyffredinol, codwyd y terfyn oedran hwn yn ddiweddar i 75 mlynedd Mae terfyniadau'r ddarpariaeth ar gyfer hyd gwasanaeth TPC yn cyfyngu aelodau newydd i uchafswm o 10 mlynedd ac mae aelodau, a oedd yn eu lle ym mis Rhagfyr 2017, i un tymor ychwanegol o 5 mlynedd ar ôl i'w tymor presennol ddod i ben (gostyngodd y dyddiadau dod i ben perthnasol yn yr ystod 2018 i 2023). Y flwyddyn nesaf (2023) bydd ymadawiad y gyfran gyntaf yn cael ei heffeithio - hynny yw yr aelodau hynny a ddechreuodd eu tymor pum mlynedd olaf yn 2018.

o'r aelodaeth yn rhugl yn yr iaith Gymraeg (mae hwn yn ostyngiad ar ffigwr y llynedd o ychydig dros 30%).

Hyfforddiant

- 3.4** Cyflwynwyd modiwlau hyfforddi fideo yn gynnar yn y flwyddyn. Cafodd cynlluniau ar gyfer ailgyflwyno digwyddiad hyfforddiant haf aelodau TPC eu terfynu oherwydd cyfyngiadau COVID-19 parhaus yng Nghymru. Ond cynhaliwyd cynhadledd hyfforddi i'r cadeiryddion yn Llandrindod ym mis Tachwedd, a oedd yn cynnwys cyflwyniad yn y cnaud gan Syr Wyn Williams (Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru) a chyflwyniad drwy gyswllt fideo gan Aled Roberts (Comisiynydd y Gymraeg a chyn-aelod o'r Tribiwnlys hwn). Hwn oedd ein digwyddiad hyfforddi hybrid cyntaf, gyda'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn mynychu'n bersonol ac ychydig drwy gyswllt fideo.

4 Cyngor Llywodraethu

- 4.1** Mae datganiad llywodraethu'r Tribiwnlys ar dudalen 16 o'r adroddiad hwn.
- 4.2** Arweinir y Cyngor Llywodraethol gan Lywydd y Tribiwnlys, Carol Cobert. Yr aelodau eraill ar y Cyngor ar ddechrau eleni oedd:

Mr Rheinallt Evans - Cynrychiolydd Cenedlaethol
Mr Rhys Prytherch - Cynrychiolydd Cenedlaethol
Mr David Subacchi - Cynrychiolydd Cenedlaethol
Mr Russell Lawson - Cynrychiolydd Cenedlaethol

- 4.3** Daeth cyfnod penodiad Mr Rheinallt Evans fel Cynrychiolydd Cenedlaethol i ben ar 20 Mai. Roedd wedi gwasanaethu ar Gyngor Llywodraethol TPC ers ei sefydlu yn 2010, ar ôl cael ei ailethol sawl gwaith gan aelodaeth y Tribiwnlys. Y tro hwn dewisodd beidio â sefyll i gael ei ailethol. Yr aelod a etholwyd yn ei le, oedd Mr David O Evans. Yn anffodus, oherwydd nodwedd o reoliadau statudol llywodraethol y Tribiwnlys, daeth ei swydd fel Cynrychiolydd Cenedlaethol i ben ar 31 Mawrth 2022 pan ddaeth cyfnod presennol ei aelodaeth gyffredin o'r tribiwnlys i ben. Adnewyddwyd aelodaeth tribiwnlys Mr Evans ac yna cafodd ei ailethol (yn ddiwrthwynebiad) i'r Cyngor Llywodraethol. Mae'r amgylchiad hwn o dymor o wasanaethu ar y Cyngor Llywodraethol yn cael ei dorri wedi digwydd sawl gwaith yn y gorffennol, ac mae'r Tribiwnlys wedi cyflwyno deiseb i'w dîm noddi sawl gwaith am newid mewn rheoliadau fel ei fod yn cael ei osgoi yn y dyfodol. O ystyried maint bychan y Cyngor Llywodraethol (pum person) a gofyniad statudol i gael cworwm o bedwar er mwyn i benderfyniadau'r Cyngor gael eu gorfodi'n llawn, mae gan yr ymyrraeth hon i barhad potensial sylweddol i darfu ar lywodraethiant effeithiol y Tribiwnlys. Mae hyn yn arbennig felly, pe bai dau neu fwy o aelodau'r Cyngor yn cael eu heffeithio ar yr un pryd.
- 4.4** Cyfarfu'r Cyngor Llywodraethol bum gwaith yn ystod y flwyddyn (mis Mai, mis Medi, mis Tachwedd, mis Ionawr a mis Mawrth). Cynhaliwyd panel penodi hefyd ym mis Mawrth. Cynhaliwyd y cyfarfodydd yn gyflawn drwy Zoom neu roeddent yn hybrid. O ganlyniad roedd cost llywodraethu TPC eleni yn isel iawn (sef 0.16% o gyfanswm gwariant y sefydliad).

5 Staffio

- 5.1** Dechreuodd y flwyddyn gyda 16 o swyddogion llawn amser mewn swydd (3 yn y Tîm Rheoli Gweithredol, 10 yn Nhîm Clerc y Tribiwnlys [gan gynnwys 3 dan hyfforddiant], a 3 yn y Tîm Cefnogi Gweinyddol). Yn ystod y flwyddyn, gadawodd un dan hyfforddiant ac un clerc tribiwnlys (ym mis Medi a mis Mawrth yn y drefn honno). Mae'r Tribiwnlys yn bwriadu llenwi'r swyddi hyn yn ystod 2022-23. Mae'r sefyllfa staffio ar ddiwedd y flwyddyn i'w weld yn Atodiad I. Mae'r atodiad hwn yn cynnwys y ffaith, bod y ddau sy'n weddill dan hyfforddiant wedi'u dyrchafu i swyddi clerc y tribiwnlys ym mis Ionawr ar ôl cwblhau eu hyfforddiant cychwynnol yn llwyddiannus.
- 5.2** O'r 13 aelod o staff nad oedd dan hyfforddiant ar ddechrau'r flwyddyn, mae wyth yn 55 oed neu'n hŷn. O dan ddarpariaethau pensiwn y Tribiwnlys gall unrhyw un o'r rhain ymddeol yn wirfoddol heb ofyn am ganiatâd y Tribiwnlys. Mae gan y rhan fwyaf o'r rhain dros 30 mlynedd o wasanaeth pensiwnadwy. Mae'r Tribiwnlys felly'n wynebu risg sylweddol o golli staff profiadol sydd â sgiliau arbenigol o fewn y pum mlynedd nesaf. Yn ogystal bydd tri arall o'r staff presennol yn cyrraedd 55 mlwydd oed o fewn y pum mlynedd nesaf. Felly mae angen i'r Tribiwnlys fuddsoddi (ac mae'n gwneud hyn) mewn datblygu personél newydd, at ddibenion parhad busnes. Mae hyn yn cael effaith, ac y bydd yn cael effaith, ar amcangyfrifo cyllideb staffio'r Tribiwnlys yn y dyfodol (gweler Adran 7: Cyllid am fanylion pellach).
- 5.3** Yn ystod trydydd chwarter y flwyddyn fe wnaeth y Cyngor Llywodraethol ymgysylltu â dau sefydliad ymgynghorol rheoli annibynnol i asesu rôl a thâl swydd y Prif Swyddog Gweithredol. Doedd asesiad annibynnol erioed wedi cael ei gynnal o'r blaen a'r teimlad oedd bod y raddfa gyflog mwy na thebyg ddim yn cyd-fynd â rolau tebyg yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Os oedd y tâl yn is na chyfraddau'r farchnad gyfredol, a byddai hyn yn effeithio ar ba mor atyniadol fyddai'r swydd pan fyddai'n cael ei hysbysebu yn dilyn ymddeoliad rhagamcanol y Prif Swyddog Gweithredol presennol. Fe wnaeth yr asesiadau ill dau ddarganfod bod angen addasu'r cyflog. Mabwysiadodd y Cyngor Llywodraethol yr argymhelliad is a gosodwyd y raddfa newydd ar gyfer y Prif Swyddog Gweithredol rhwng £55K a £65K.
- 5.4** Y cyflog canolrifol yn TPC yn ystod 2021-22 oedd £34,500; ac (ar ddiwedd y flwyddyn) roedd cyflog y Prif Swyddog Gweithredol yn fwy na'r gweithiwr gradd isaf o ffactor o 3.1.
- 5.5** 4.24 oedd nifer y diwrnodau o absenoldeb salwch ar gyfartaledd i bob aelod o staff eleni. Doedd gan 44 y cant o'r staff ddim absenoldebau oherwydd salwch. Roedd y cyfartaledd ar gyfer yr 80% canolog o staff (hy ar ôl tynnu'r 10% uchaf a'r 10% isaf o'r ystod llawn), yn ôl y gofyn gan y KPI perthnasol, yn 3.12 diwrnod.
- 5.6** Cafodd hyfforddiant wyneb yn wyneb staff ei ailgyflwyno eleni, gyda digwyddiadau staff llawn yn cael eu cynnal yn ne a gogledd y wlad (Gorffennaf, Hydref a Rhagfyr yn y drefn honno).

6 Ystadau a chyfleusterau

- 6.1** Mae gan y Tribiwnlys un swyddfa (yng Nghasnewydd). Mae'n cael ei gynnal ar brydles breifat a fydd yn dod i ben nesaf ym mis Hydref 2024. Mae'r Tribiwnlys a'i gyrrff rhagflaenol wedi meddiannu'r safle ers yr 1980au. Mae wedi cael ei adnewyddu'n helaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'n cynnwys prif swyddfa'r Tribiwnlys a'i ganolfan weinyddol; mae hefyd yn cynnwys un brif ystafell wrandawiadau (a ddefnyddir yn ychwanegol at ddibenion hyfforddi staff) ac un ystafell wrandawiadau / ystafell fwrdd bychan. Mae saith aelod o staff wedi eu lleoli yno. Mae gweddill y staff yn gweithio gartref. Fel y manylir yn Adran 1 yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'r Tribiwnlys yn llogi lleoliadau allanol mewn rhannau eraill o'r wlad pan fo angen at ddibenion gwrandawiadau mewn mannau eraill.
- 6.2** Mae'r Tribiwnlys yn rhedeg system meddalwedd ffôn dros y rhyngwyd, fel bod modd ateb galwadau mewnol ac allanol a'u trosglwyddo'n hawdd. Mae cyfrif busnes Microsoft 365 yn darparu cyfleusterau swyddfa gefn safonol, gan gynnwys e-bost. Datblygwyd system rheoli apêl y Tribiwnlys yn fewnol gyda chontractwr datblygu TG annibynnol; mae'n defnyddio storfa cwmwl sy'n cael ei adlewyrchu ar y storfa wrth gefn mewnol.
- 6.3** Defnyddir cyfrif busnes Zoom ar gyfer y rhan fwyaf o wrandawiadau cyswllt fideo. O bryd i'w gilydd defnyddir Microsoft Teams ar gais y partïon.
- 6.4** Prynwyd Ipads ar ddiwedd y flwyddyn i'w defnyddio gan aelodau'r tribiwnlys, er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar ddogfennaeth papur a chynyddu rheolaethau diogelwch data. Bydd y dyfeisidau hyn yn cael eu cyflwyno (ynghyd â hyfforddiant priodol) mewn newid cynyddol o bapur i ddogfennau electronig yn ystod 2022-23.

7 Cyllid

7.1 Roedd gwariant y tribiwnlys am y flwyddyn bron yn £1,066,000 (allan o gyllideb o £1,074,000). Gwariwyd 71% ar gostau staffio (i fyny o 67% yn ystod y ddwy flynedd flaenorol), a 27% ar gostau rhedeg gweithredol eraill (i lawr o 33%). Cafodd y gweddill bach o £8,000 ei adamsugno gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r Cytundeb Fframwaith sydd ar waith gyda TPC.

7.2 Gellir priodoli'r cynnydd mewn costau staffio i:

- y buddsoddiad mewn staff dan hyfforddiant i sicrhau parhad busnes (gweler Adran 5: Staffio am fanylion);
- ailgyfrifiad graddfa cyflog y Prif Swyddog Gweithredol; a
- chwyddiant cyflog cyffredinol.

Mae'r cynnydd hwn yng nghostau staffio wedi cael ei dalu gan arbedion mewnol a wnaed mewn meysydd gweithredol eraill, yn bennaf o ganlyniad i gau swyddfeydd yng Nghyffordd Llandudno ac Abertawe ar ddiwedd 2020-21 a symud i weithio o gartref ar gyfer hanner staff TPC. Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r arbedion hynny gael eu gwireddu. Mae'r newid i wrandawiadau fideo hefyd wedi rhoi rhai arbedion ychwanegol.

7.3 Mae dyraniad cyllideb y Tribiwnlys gan Lywodraeth Cymru wedi'i bennu ar yr un lefel ariannol (o £1.074M) ers 2018-19. Mae'r Tribiwnlys wedi amcangyfrif y bydd modd gweithredu ar yr un swm ariannol yn ystod 2022-23; a dyma'r swm yr argymhellwyd i Lywodraeth Cymru (LIC) mewn amcanestyniad cyllideb a gyflwynwyd ganddo i LIC ym mis Hydref 2021. Cafodd y swm hwn ei ddyrannu'n briodol gan LIC, fel y nodwyd yn ei lythyr dyrannu cyllideb a anfonwyd i'r Tribiwnlys ym mis Mawrth 2022. 2022-23 fydd y bumed flwyddyn yn olynol i'r un lefel ariannol gael ei osod. Mae'n annhebygol iawn y bydd y TPC yn gallu parhau i amsugno costau chwyddiant cyffredinol, a chostau chwyddiant cyflog, fel y mae wedi'i wneud yn ystod y pedair blynedd diwethaf (gweler y tabl isod).

7.4 *Tabl*

Mae'r tabl hwn yn dangos y pwysau chwyddiant y mae'r Tribiwnlys wedi gallu ei gynnwys o fewn ei gyllideb ariannol sefydlog o 2018/19. Ar sail gronnsu syml (yn hytrach na sail gyfansoddyd a fyddai'n rhoi ffigur ychydig yn fwy, ond yn fwy cywir), mae'r Tribiwnlys wedi llwyddo i amsugno chwyddiant cyflog o 8.5% a chwyddiant economaidd cyffredinol o 11.9%.

Blwyddyn	Chwyddiant cyflog	Cyfradd CPI blynyddol	Gwariant cyllideb gwirioneddol
2018/19	2.0%	1.9%	1,072,000
2019/20	2.0%	1.5%	1,071,000
2020/21	2.75%	1.5%	1,051,000
2021/22	1.75%	7.0%	1,066,000

Y ffigur chwyddiant cyflog yw'r cytundeb cyflog a wnaed mewn gwirionedd o ran staff TPC.³ Cyfradd CPI (Mynegai Prisiau Defnyddwyr) yw'r gyfradd CPI blynyddol (Swyddfa Ystadegau Gwladol) ym mis Mawrth bob blwyddyn weithredol. Mae chwyddiant CPI cyffredinol yn berthnasol i wariant sydd ddim yn gysylltiedig â staffio'r Tribiwnlys (ac eithrio rhent swyddfa Casnewydd sydd wedi aros yr un peth dros y cyfnod).

- 7.5** Yn ogystal â'r anallu i gynnwys pwysau chwyddiant parhaus yn y dyfodol agos, mae dau faes gwariant yn amlwg ar y gorwel fydd yn dod â chynnydd mewn gwariant. Y rhain yw rhent swyddfa TPC a'i filiau ynni, sydd ill dau wedi'u gosod am gyfnod sylweddol. Cafodd y rhent ei gytuno arno ddiwethaf ym mis Hydref 2014 ar sail prisiau'r farchnad oedd yn bodoli ar y pryd. Bydd y brydles hon yn dod i ben yn 2024. Bydd adnewyddu neu adleoli yn gweld rhywfaint o gynnydd mewn gwariant. Bydd cytundeb sefydlog TPC ar gyflenwadau ynni hefyd yn dod i ben yn ystod 2023. Mae'r Tribiwnlys wedi gwneud yn dda wrth reoli ei gostau dros y flwyddyn ddiwethaf (a thri blaenorol) o fewn yr un gyllideb, ac mae'n debygol o wneud hynny mewn perthynas â 2022-23 hefyd. Fodd bynnag mae lle i addasu bellach yn dod i ben.
- 7.6** Mae Atodiad H yn dangos yr arbedion graddol a wnaed gan y Tribiwnlys (o flwyddyn i flwyddyn dros y naw mlynedd diwethaf)⁴. Mae'r atodiad yn dangos bod y Tribiwnlys wedi gwario llai yn raddol pob blwyddyn ac eithrio'r olaf (a welodd ychydig o gynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol).

³ Mae'r cytundeb cyflog blynyddol yn cael ei gysylltu'n gytundebol â'r Cytundeb Cyflog Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol.

⁴ Defnyddir y flwyddyn 2013-14 fel gwaelodlin gan mai dyma'r flwyddyn ddiwethaf pan na chafodd cyllid a ddyrannwyd gan y Tribiwnlys ei leihau na'i osod yn ffigur ariannol y flwyddyn flaenorol.

Datganiadau

(angenrheidiol dan Ddogfen Fframwaith TPC – Llywodraeth Cymru)

Datganiad Llywodraethu

Llywodraethir Tribiwnlys Prisio Cymru gan ei Gyngor Llywodraethol, sy'n cynnwys:


- Llywydd y Tribiwnlys
- y tri Cynrychiolydd Cenedlaethol
- ac, os eu penodir, hyd at dri pherson a benodir gan Lywodraeth Cymru.

Rhagnodir y Cyngor a'i gyfansoddiad gan Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 [WSI 2010 Rhif 713 (W69)], fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Diwygiad) [WSI 2017 Rhif 941 (W 234)].

Rhaid i'r Llywydd a'r Cynrychiolwyr Cenedlaethol fod yn aelodau o'r Tribiwnlys a chânt eu hethol gan aelodaeth y Tribiwnlys am gyfnod o dair blynedd. Efallai y byddan nhw'n sefyll i gael eu hailethol ar ddiwedd tymor.

Manylir ar gyfrifoldebau cyfunol y Cyngor Llywodraethu, cyfrifoldebau personol unigol y Llywydd, a chyfrifoldebau unigol pob Cynrychiolydd Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru a benodir gan Lywodraeth Cymru yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru, a lofnodir o dan gymeradwyaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol gan un o swyddogion Llywodraeth Cymru a Phrif Swyddog Gweithredol y Tribiwnlys Prisio. Mae Prif Swyddog Gweithredol y Tribiwnlys yn arwyddo ar ran y Tribiwnlys ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan y Cyngor Llywodraethu.

Mae Cyngor Llywodraethol y Tribiwnlys yn cyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd sy'n gyson ag Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar Ddinesydd Llywodraeth Cymru, sy'n ymgorffori Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a nodir gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan).




Andrew Shipsides
Prif Weithredwr TPC

Datganiad Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifeg

Prif Weithredwr Tribiwnlys Prasio Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod adnoddau ariannol y Tribiwnlys yn cael eu rheoli yn unol â'r egwyddorion a gofynion rheoli ariannol penodol a nodir yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prasio Cymru a dogfennau ariannol a chofnodion Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad yn cyfeirio atynt yn y Ddogfen Fframwaith.

Mae'r Prif Weithredwr yn atebol yn bersonol i'r Swyddog Cyfrifeg Ychwanegol ddynodedig o fewn adran Llywodraeth Cymru sy'n noddi'r Tribiwnlys. Mae'r Swyddog Cyfrifeg Ychwanegol yn ei dro yn atebol i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad.

Caiff y Prif Weithredwr ddirprwyo, i weithwyr y Tribiwnlys, gweinyddu ei gyfrifoldebau o ddydd i ddydd ond mae'n parhau'n bersonol gyfrifol ac yn atebol amdanynt.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Andrew Shipsides', with a large, stylized flourish extending from the end of the signature.

Andrew Shipsides
Prif Weithredwr TPC

Atodiadau

- A Niferoedd cyfarfodydd tribiwnlys ac achosion wedi'u rhestru**
- B Llwyth gwaith – ffigurau cymharol pum mlynedd diwethaf**
- C Data Clirio Apêl 2021/2022**
- D Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) – tabl canlyniadau**
- E Diffiniadau KPI ar gyfer 2022/23**
- F Dadansoddiad oedran a rhywedd yr aelodaeth (ar 31 Mawrth 2022)**
- G Gwariant Tribiwnlys Prasio Cymru 2021/2022**
- H Cyfanswm y gwariant – ffigurau cymharol y naw mlynedd diwethaf**
- I Strwythur y Sefydliad**

Nifer o gyfarfodydd tribiwnlys ac achosion a restrwyd (ynghyd â chyfartaleddau fesul aelod o dîm Clercod y Tribiwnlys):

Atodiad A

Nifer o aelodau yn nhîm Clercod y Tribiwnlys (gan gynnwys Rhai dan Hyfforddiant)= 9.8

Nifer cyfarfodydd y tribiwnlys

Ebrill	15						
Mai	16	31	at ddiwedd Mai	3.16	fesul clercc	1.58	fesul clercc y mis
Mehefin	21						
Gorffennaf	14	66	at ddiwedd Gorffennaf	6.73	fesul clercc	1.68	fesul clercc y mis
Awst	16						
Medi	15	97	at ddiwedd Medi	9.90	fesul clercc	1.65	fesul clercc y mis
Hydref	17						
Tachwedd	22	136	at ddiwedd Tachwedd	13.88	fesul clercc	1.73	fesul clercc y mis
Rhagfyr	10						
Ionawr	13	159	at ddiwedd Ionawr	16.22	fesul clercc	1.62	fesul clercc y mis
Chwefror	16						
	8	183	at ddiwedd Mawrth	18.67	fesul clercc	1.56	fesul clercc y mis
CYFANSWM	183						

Achosion a Restrwyd	2017 AAN	AAN Blaenorol	AAN Arbenigol	Rhestr TC	ATC	GDG	Hysbysiadau Cwblhau	Adolygiadau o Benderfyniadau	CYFANSWM	Nifer ar gyfartaledd fesul clercc
Ebrill	296	58	0	58	10	0	0	1	423	43.16
Mai	447	20	66	81	2	4	0	1	621	63.37
Mehefin	550	0	0	140	12	0	0	1	703	71.73
Gorffennaf	191	2	0	87	8	1	0	0	289	29.49
Awst	195	0	0	87	6	6	0	1	295	30.10
Medi	180	17	0	81	8	2	0	0	288	29.39
Hydref	266	0	0	128	12	3	0	0	409	41.73
Tachwedd	279	0	0	103	16	2	0	3	403	41.12
Rhagfyr	95	10	0	86	6	3	0	2	202	20.61
Ionawr	148	36	0	103	3	3	0	4	297	30.31
Chwefror	214	1	2	62	10	0	3	2	294	30.00
	35	0	0	79	7	1	0	0	122	12.45
CYFANSWM	2896	144	68	1095	100	25	3	15	4346	443.47

		Prisio Ardrethu Annomestig		Prisio y Dreth Gyngor		Holl apeliadau eraill	
2017-18							
Mewnbyn	Dygwyd ymlaen	8860		604		45	
	Derbyniwyd	7061		1338		120	
Cliriwyd	Setlo gan bartïon	6516	83%	1126	78%	34	31%
	Penderfynwyd	1291	17%	317	22%	77	69%
2018-19							
Mewnbyn	Dygwyd ymlaen	8114		499		54	
	Derbyniwyd	6369		1138		95	
Cliriwyd	Setlo gan bartïon	4093	80%	824	63%	22	28%
	Penderfynwyd	1034	20%	476	37%	58	73%
2019-20							
Mewnbyn	Dygwyd ymlaen	9356		337		69	
	Derbyniwyd	3986		1037		93	
Cliriwyd	Setlo gan bartïon	3039	85%	742	76%	35	28%
	Penderfynwyd	555	15%	235	24%	89	72%
2020/21 (COVID)							
Mewnbyn	Dygwyd ymlaen	9748		397		38	
	Derbyniwyd	19591		1178		143	
Cliriwyd	Setlo gan bartïon	5250	96%	746	83%	22	31%
	Penderfynwyd	202	4%	150	17%	49	69%
2021-22 (COVID) B2							
Mewnbyn	Dygwyd ymlaen	23887		679		110	
	Derbyniwyd	3538		1157		113	
Cliriwyd	Setlo gan bartïon	4220	90%	883	66%	25	17%
	Penderfynwyd	495	10%	456	34%	119	83%
Cariwyd ymlaen		22710		497		79	

- Nodiadau: Mae ffigurau Prisio AAN a TC yn cynnwys apeliadau yn erbyn Hysbysiadau Annilysrwydd a gyhoeddwyd gan yr ASB.
- Mae "Yr holl apeliadau eraill" yn cynnwys: Atebolrwydd TC, gostyngiad TC, hysbysiadau cwblhau TC ac AAN, hysbysiadau cosb TC ac AAN, a phob cais ffurfiol am adolygiad o benderfyniad o unrhyw fath o apêl.
- Roedd y blynyddoedd 2019-20 a 2021-22 yn flynyddoedd pan oedd y ASB yn gweithio ar ymarfer ailbriso; ac felly drwy gytundeb gyda Llywodraeth Cymru canolbwyntiodd ei hadnoddau ar y gwaith hwnnw yn hytrach na gwaith apelio. Mae hyn yn cael sgil-ffaith o ran nifer yr achosion y gall TPC eu rhestru a'u clirio. Sylwch ar y nifer is o achosion a benderfynwyd o'i gymharu â blynyddoedd heb Ailbrisiadau yn 2017-18 a 2018-19
- Achoswyd y nifer eithriadol iawn o apeliadau ardrethu a dderbyniwyd yn 2020-21 gan filoedd lawer o apeliadau a wnaed ar sail Newid Amgylchiadau Materol (MCC) oherwydd effaith COVID-19

Ystadegau Apêl / Appeal statistics

01/04/21 - 31/03/22

Treth Cyngor / Council Tax	D/Y	Derbyniwyd	Datryswyd	Penderfynwyd	C/Y
	B/F	Received	Settled	Decided	C/F
Prisio / Valuation	667	1147	881	453	490
Hysbysiad Annilyys / Invalidity Notice	2	10	2	3	7
Hysbysiad Cosb / Penalty Notice	0	0	0	0	0
Hysbysiad Cwblhad / Completion Notice	0	2	1	1	0
Atebolrwydd / Liability	81	58	13	81	45
Gostyngiad / Reduction	28	36	10	21	33
Adolygiad o benderfyniad / Decision reviews	0	13	0	13	0
Cyfanswm / Totals	788	1266	907	572	575

Ardrethu Annomestig / Non-domestic Rating	D/Y	Derbyniwyd	Datryswyd	Penderfynwyd	C/Y
	B/F	Received	Settled	Decided	C/F
Prisio / Valuation 2017	22585	3228	3452	459	21902
Prisio / Valuation 2010	1164	3	718	2	447
Prisio / Valuation 2005	26	0	10	0	16
Hysbysiad Annilyys / Invalidity Notice (2017)	95	296	26	22	343
Hysbysiad Annilyys / Invalidity Notice (2010)	17	11	14	12	2
Hysbysiad Cosb / Penalty Notice	0	2	1	0	1
Hysbysiad Cwblhad / Completion Notice	1	0	0	1	0
Adolygiad o benderfyniad / Decision reviews	0	2	0	2	0
Cyfansymiau / Totals	23888	3542	4221	498	22711

Prif gyfanswm / Grand totals	24676	4808	5128	1070	23286
-------------------------------------	-------	------	------	------	-------

Dangosyddion Perfformiad Allweddol --- tabl canlyniadau

Atodiad D

Mesur Perfformiad	Targed 2021/22	Canlyniad 2021/22	Targed ar gyfer 2022/23	Rheswm dros unrhyw newid targed / neu fanylder/gwybodaeth bellach
Hysbysiadau gwrandawiaidau, mewn perthynas â'r rhestr tro cyntaf o apeliadau Ardrethu Annomestig, i'w cyhoeddi i bartion o fewn 8 wythnos i ddyddiad targed rhaglennu ASB.	95%	69.2%	95%	766 allan o 1,107 o restrau tro cyntaf. Mae'r nifer cymharol uchel o achosion a restrir yn wreiddiol dros 8 wythnos ar ôl dyddiad targed yn etifeddiaeth o'r flwyddyn COVID flaenorol.
Apeliadau Treth Gyngor (priso ac atebolrwydd) i'w clirio o fewn 12 mis ar ôl eu cyflwyno i'r tribiwnlys	95%	76.5%	95%	Cliriwyd 413 yn y cyfnod '>12mis oed 67 heb eu clirio ar ddiwedd y cyfnod '> 12mis oed (allan o 2,041 o achosion ar gael i'w rhestru). Mae hyn yn golygu cyfradd o 23.5% ar gyfer achosion sy'n hŷn na 12 mis cyn eu clirio. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain o ganlyniad i COVID yn amharu ar y rhaglen rhestrau arferol yn y flwyddyn flaenorol a'r flwyddyn gyfredol.
Cyhoeddir rhesymau ysgrifenedig dros gyhoeddi penderfyniad o fewn 28 diwrnod i ddiwedd y gwrandawriad apêl	95%	95.1%	95%	Cyflwynwyd 52 ar ol 28 diwrnod (allan o 1,055 o benderfyniadau)
Adolygiad AAN o geisiadau penderfyniad fel canran o achosion AAN a benderfynwyd	<0.50%	0.40%	<0.50%	2 gais o 498 o benderfyniadau
Adolygiad PTC o geisiadau penderfyniad fel canran o achosion PTC	<2.0%	1.7%	<2.0%	8 cais o 453 penderfyniad
Adolygiad ATC o geisiadau penderfyniad fel canran o achosion ATC a benderfynwyd	<5.0%	4.9%	<5.0%	4 cais o 81 o benderfyniadau
Penderfyniadau a gyfeiriwyd at lysoedd uwch.	<0.50%	0.28%	<0.5%	3 atgyfeiriad o 1,055 o benderfyniadau
Penderfyniadau sy'n destun cwyn gan bartion	<1.0%	0.18%	<1.0%	2 gwyn o 1,055 o benderfyniadau
Nifer o honiadau a seiliau da iddynt a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn erbyn y tribiwnlys	dim	dim	dim	
Nifer o honiadau cydymffurfiaeth a Safonau'r Iaith Gymraeg a seiliau da iddynt yn erbyn y tribiwnlys	dim	dim	dim	
Y ffigwr cyfartalog blynyddol fesul gweithiwr o ran absenoldeb salwch sydd ddim wedi bod yn fwy na 5 diwrnod gwaith ar gyfer 80% canolog y dosbarthiad staff llawn.	<5 days	3.12	<5 days	Doedd gan y rhan fwyaf o staff ddim dyddiau o absenoldeb salwch.

Noder: Ni ystyriwyd bod unrhyw adolygu yn angenrheidiol i KPI y flwyddyn flaenorol.

Diffiniadau KPI

- (a) 95% o hysbysiadau gwrandawiaidau, mewn perthynas â'r rhestr tro cyntaf o apeliadau Ardrethu Annomestig, i'w cyhoeddi i bartïon o fewn 8 wythnos i ddyddiad targed rhaglennu ASB.
- (b) 95% o apeliadau Treth Gyngor (priso ac atebolrwydd) i'w clirio o fewn 12 mis ar ôl eu cyflwyno i'r tribiwnlys
- (c) Cyhoeddir 95% o holl resymau ysgrifenedig dros gyhoeddi penderfyniad o fewn 28 diwrnod i ddiwedd y gwrandawiad apêl
- (d) Adolygiad AAN o geisiadau penderfyniad i fod yn llai na 0.5% o'r achosion a benderfynwyd
- (e) Adolygiad PTC o geisiadau penderfyniad i fod yn llai na 2% o'r achosion a benderfynwyd
- (f) Adolygiad ATC o geisiadau penderfyniad i fod yn llai na % o'r achosion a benderfynwyd
- (g) Llai na 0.5% o holl benderfyniadau i'w cyfeirio at lysoedd uwch.
- (h) Llai na 1.0% o'r holl benderfyniadau i fod yn destun cwyn gan bartïon
- (i) Dim honiadau a seiliau da iddynt yn cael eu cyflwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- (j) Dim o honiadau cydymffurfiaeth a Safonau'r Iaith Gymraeg a seiliau da iddynt yn erbyn y tribiwnlys
- (k) Nid yw'r ffigwr cyfartalog blynyddol fesul gweithiwr o ran absenoldeb salwch i fod yn fwy na 5 diwrnod gwaith ar gyfer 80% canolog y dosbarthiad staff llawn.

Dadansoddiad oedran a rhywedd yr aelodaeth (fel ar 31 Mawrth 2022)

Oed	O dan 30		30 -39		40-49		50-59		60-69		70-79		Dros 80	
Rhywedd	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B
Cyfanswm	0	0	0	0	1	0	6	1	10	9	24	5	13	2

Cyfanswm	
G	B
54	17

Canran o'r holl aelodaeth	0.0%	0.0%	3.8%	7.5%	26.3%	45.0%	17.4%
---------------------------	------	------	------	------	-------	-------	-------

75.0%	25.0%
-------	-------

Nodyn

- 1 Mae cyfanswm yr aelodaeth wedi gostwng o 80 y llynedd i 71. Mae'r nifer hwn yn dal yn ddigonol ar gyfer lefelau llwyth gwaith cyfredol.
- 2 Cyfanswm nifer yr aelodau sy'n gwasanaethu fel aelodau cynghorau lleol yw 4. Nid yw'r aelodau hyn byth yn cael eu trefnu i eistedd ar wrandawiadau sy'n gysylltiedig â'u hardal cyngor.

Gwariant Tribiwnlys Prasio Cymru 2021-2022 (£oedd)

Atodiad G

Valuation Tribunal for Wales Expenditure 2021-2022 (£s)

Maes gwariant Area of expenditure	2021/22		2020/21	
	Swm / Amount	Canran / Percentage	Swm / Amount	Canran / Percentage
Costau staff (ac eithrio pensiynau) Staff costs (excluding pensions)	651,257	61.12%	574,727	54.66%
Costau pensiynau / Pension costs	108,213	10.15%	134,315	12.78%
Is-gyfanswm / Subtotal	759,470	71.27%	709,042	67.44%
Costau swyddfeydd / Office accommodation	80,654	7.57%	150,362	14.30%
Gwariant ar gyfriaduron / Computing	92,051	8.64%	71,234	6.78%
Gweinyddiaeth ganolog / Central administration	35,417	3.32%	29,144	2.77%
Tribiwnlysoedd / Tribunals	25,760	2.42%	11,276	1.07%
Llywodraethu / Governance	1,685	0.16%	432	0.04%
Hyfforddiant aelodau / Membership training	17,546	1.65%	3,500	0.33%
Hyfforddiant staff / Staff training	18,031	1.69%	41,389	3.94%
Ad-daliad benthyciad/ Loan repayment	35,000	3.28%	35,000	3.33%
Is-gyfanswm / Subtotal	306,144	28.73%		32.56%
Cyfanswm / To tal	1,065,614		1,051,379	

Nodyn: Gwnaeth benthyciad o £175,000 o raglen Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru gyllido cynllun dileu swyddi'n wirfoddol yn 2017/18. Mae'r benthyciad yn un di-log ac yn ad-daladwy dros bum mlynedd (ar £35,000 y flwyddyn). Dyma Blwyddyn 4 yr ad-daliadau.

Noder: A loan of £175,000 from Welsh Government's Invest to Save programme financed a voluntary redundancy scheme in 2017/18. The loan is interest free and repayable over five years (at £35,000 per year). This is Year 4 of the repayments.

Cyfanswm gwariant – ffigurau cymharol yr wyth blynedd ddiwethaf

Cyfanswm y gwariant – ffigurau cymharol y naw mlynedd diwethaf

Blwyddyn ariannol	Cyfanswm gwariant blynyddol (£)	Canran arbedion o'i gymharu gyda 2013/14	Costau staffio blynyddol (£)	Canran y cynnydd neu lleihad ar y flwyddyn flaenorol	Costau cynnal ac eithrio staffio (£)	Canran y cynnydd neu lleihad ar y flwyddyn flaenorol
Financial year	Total annual spend (£)	Percentage saving compared to 2013/14	Annual staff costs (£)	Percentage increase or decrease on previous year	Non-staffing running costs (£)	Percentage increase or decrease on previous year
2013-14	1,358,330		811,711		546,619	
2014-15	1,305,586	3.88%	826,208	+1.79%	479,378	-12.30%
2015-16	1,249,787	7.99%	839,169	+1.57%	410,618	-14.34%
2016-17	1,203,584	11.39%	843,787	+0.55%	359,796	-12.38%
2017-18	1,111,856	18.15%	803,889	-4.73%	307,967	-14.41%
2018-19	1,072,325	21.06%	715,954	-10.94%	356,371	+15.72%
2019-20	1,070,862	21.16%	720,629	+0.65%	350,233	-1.72%
2020-21	1,051,379	22.60%	709,042	-1.61%	342,337	-2.25%
2021-22	1,065,614	21.55%	759,470	+7.11%	306,144	-10.57%

Nodiadau


Mae'r tabl uchod yn gofnod o'r arbedion a gyflawnwyd dros yr naw mlynedd diwethaf. Mae gwariant wedi gwastatáu ar ôl sawl blwyddyn o arbedion blynyddol mawr. Mae'r gwariant ychydig yn uwch eleni oherwydd buddsoddiad mewn Clercod dan Hyfforddiant. Mae gwariant cyflog wedi cynyddu, tra bod gwariant gweithredol arall wedi gostwng. Bydd cynnydd mewn costau byw yn y dyfodol ar gyfer staffio a gwariant gweithredol arall yn golygu bod angen cynyddu'r ddarpariaeth gyllidebol yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r ddarpariaeth gyllidebol wedi'i rhewi am bum mlynedd (gan gynnwys 2022-23).

Notes


The above table is a record of savings achieved over the last nine years. Expenditure has plateaued after several years of major annual savings. The slightly increased expenditure this year is because of investment in Trainee Clerks. Salary expenditure has increased, whereas other operational expenditure has decreased. Future cost of living increases for both staffing and other operational expenditure will necessitate an increase in budgetary provision in future years. The budgetary provision has been frozen for five years (including 2022-23).

Strwythur y sefydliad

Y Tribiwnlys



Cyngor Llywodraethu



Staffio

